## Cerrig sigl a cherrig siot yn Eifionydd DEWI WILLIAMS

# Cofadeiladau o ddyddiau'r Derwydd?

YN Y ddeunawfed ganrif deffrowyd diddordeb sawl un o glerigwyr Cymru yn yr hynafiaethau o'u cwmpas a bu rhamantu ynghylch olion y cyfnodau cyntefig yn destun mwynhad a difyrrwch iddynt. Yr arloeswyr yn eu plith yn ddiamau oedd y Parchedig Henry Rowlands o Fôn a geisiodd yn ei 'Mona Antiqua Restaurata' brofi fod yr ynys yn brif sedd y Derwyddon.

Yn 1740 cyflwynwyd y Parchedig Richard Farrington i ficeriaeth Llanwnda a Llanfaglan a bu yn gwasanaethu'r ddau blwyf hyd ei ymddeoliad tros ddeg mlynedd ar hugain yn ddiweddarach. Mae'n sicr ei fod yntau fel eraill o'r clerigwyr graddedig o Rydychen wedi gwirioni at y gybolfa Dderwyddol oherwydd teitlau'r llawysgrifau sydd yn cynrychioli ffrwyth ei ymchwil yw 'The Celtic Monuments of Snowdon Attempted' a 'The Druid Monuments of Snowdon'.

Yn y cyntaf disgrifia garreg arbennig o'r math a adnabyddir fel maen sigl ar y llechwedd uwchben Dolbenmaen yn Eifionydd. Yn ôl Farrington 'gwyddai'r hen Dderwyddon yn union ble i osod bys ar y maen er mwyn peri iddi ysgwyd'. Mae'r garreg, fel sawl maen sigl arall, yn enghraifft o'r meini symudol a gludwyd gan y rhewlif, fel yr un a gafniodd Gwm Pennant sydd tu hwnt i Ddolbenmaen.

* * * *

NATURIOL ydoedd i Farrington wrth ddisgrifio lleoliad y garreg nodi ei bod nid nepell o Cwm Mawr, fferm yng Nghwmystradllyn sydd yn terfynu ar yr Alltwen uwchben pentref Penmorfa. Ar dir Cwm Mawr safai cofadail 'Dderwyddol' lawer mwy sylweddol na'r maen sigl.

Disgrifia Farrington ef yn ei 'Druid Monuments' fel 'Grand Druid Elliptical Colonnade'. Yn syml, cylch cerrig rhyw hanner can llath o led ydoedd. Er nad oedd maintioli y deunaw carreg ar hugain yn drawiadol, rhyw bum troedfedd oedd maint yr uchaf ar y pegwn gogleddol, dyma yn ddiamau leoliad teml neu lys barn o'r radd uchaf yn nhyb Farrington.

Credai pawb a ddylanwadwyd gan y chwiw Dderwyddol fod pob cromlech, maen hir, maen sigl a chylch cerrig yn dyddio o'u cyfnod. Gwyddom bellach eu bod oll yn rhagflaenu'r Celtiaid o ganrifoedd lawer. Yn wir, mae'n eithaf posibl fod y Celtiaid eu hunain wedi eu cyfareddu yn yr un modd ganddynt. Mae gwraidd Celtaidd i'r enw Penyfed, yr hen drefgordd gyfagos. Awgrymodd y diweddar Colin Gresham y gallai'r mewnfudwyr Celtaidd fod wedi dewis lleoliad eu 'llannerch sanctaidd' oherwydd agosrwydd cylch cerrig Cwm Mawr ar y graig uwchben y safle.



*Un o'r cerrig sy ar ôl yng Nghwm Mawr.*

Yn naturiol croniclodd Farrington y chwedl ddisgwyliadwy am y cylch. Dywedir fod un o'r meini wedi ei gludo ymaith er mwyn ei ddefnyddio fel carreg lintel yn y ffermdy. Canlyniad hyn fu mellt a tharanau, stormydd a gwyntoedd enbyd hyd nes yr adferwyd y maen i'w briod le.

* * * *

ERBYN hyn nid oes arlliw o'r cylch ar ôl. Rhyw bedair ugain mlynedd yn ddiweddarach na Farrington ymwelodd hynafiaethydd arall â'r safle, un llawer mwy gwerinol na Farrington ond un y mae'n dyled yn fawr iddo am ei gymwynas yn cywain cymaint o ffeithiau diddorol i'w gyfrol y *Gestiana*.

Ynddi edrydd Alltud Eifion fel y bu i denant Cwm Mawr gydnabod wrtho yn 1851 mai ef oedd wedi saethu'r meini er mwyn arloesi'r tir 'a dangosodd ran o'r maen llôg neu'r maen arch . . . yn rhan o'r clawdd!' Mae'n amlwg fod grym y chwedl wedi colli llawer o'i harswyd gyda threigl amser.

Erbyn y ganrif ddiwethaf yr oedd math arall o saethu cerrig yn cael ei arfer yn yr ardal. Ar rai ffermydd suddwyd nifer o dyllau mewn carreg lefn go galed wedi ei hangori yn gadarn yn y ddaear er mwyn ffrwydro powdwr i ddathlu achlysur go arbennig megis priodas frenhinol, jiwbili neu ddyfodiad etifedd ystâd i'w oed. Canfyddir un o'r 'cerrig siot' yma ar dir Llwynmafon Uchaf rhyw filltir o Ddolbenmaen. Ynddi mae un twll ar bymtheg rhyw chwe modfedd o ddyfnder gyda mymryn o rigol fyddai hefyd yn cynnwys powdwr i'w cysylltu.

Ers rhai blynyddoedd mae fferm Cae Mawr yn eiddo i Richard Ellis Griffith, Llwynmafon, ac yn ddiweddar datgelodd i mi ei fod wedi darganfod carreg siot arall yno. Mae'n bosibl ei bod wedi ei thyllu yng nghyfnod William Owen, ffrwydrwr y 'colonnade'. Trychineb o'r radd flaenaf fu diflaniad y cylch cerrig o Gwm Mawr ond o leiaf, erys un enghraifft yno o'r dynfa ryfeddol sydd rhwng dynion a cherrig tros y canrifoedd.

O.N.: Traethodd fy nghyfaill Dafydd Guto ar 'Garreg Arthur', enw lleol ar y maen sigl, yn *Y Ffynnon*, papur bro Eifionydd, rhyw bedair blynedd yn ôl. Diolch hefyd iddo am y llun.

# Cardiau post y Genedlaethol

## Arweiniad i gasglwr Gan DAFYDD GUTO

YCHYDIG iawn o gardiau post a welais ar werth sy'n dal rhyw gyswllt neu'i gilydd â'r Brifwyl. Rhyfedd meddwl hefyd. Mi fyddech wedi disgwyl cael tomenni o gardiau post wedi'u cynhyrchu — oherwydd os am werthu, wel gwerthu yn Eisteddfod Fawr yr eisteddfodau onidê. Ond faint o'r math yna o gardiau sydd yna? Dyma gip ar y rhai y deuais i ar eu traws.

(a) *Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda.* Du a gwyn, Gorsedd y Beirdd, Machynlleth, Mehefin 8ed, 1883. **Er mwyn yr hen amser gynt.** Postiwyd ym Machynlleth, Rhagfyr 19eg, 1906. Cyfres Maglona, Rhif 10. Cyhoeddwyd gan Evan Jones, Machynlleth.

(b) *Cadair Eisteddfod Gadeiriol Bae Colwyn, 1910.* Du a gwyn. Marc post Medi 23ain, 1910; wedi'i bostio o Fae Colwyn. Cynhwysir gwybodaeth am wneuthurwyr y Gadair, ond nis dywedir mai y bardd buddugol oedd Bardd yr Haf, sef Robert Williams Parry o Dalysarn, Arfon.

(c) Cyfres o wyth cerdyn post. Lliw. Cyhoeddwyr Dragon, Llandeilo. Ffotograffwr yw Tegwyn Roberts. Ffotograffau o Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 1978. Y ddawns flodau i anrhydeddu'r bardd; y Parch. W. J. Gruffydd, Archerddwydd Cymru; cyflwyno'r Flodeuged i'r Archdderwydd; Coroni'r Bardd; y Corn Hirlas a'r Flodeuged; Cleddyf Heddwch y seremoni Coroni'r Bardd; cyflwyno'r Flodeuged i'r Archdderwydd; gwrando ar y feirniadaeth.

O fwrw golwg dros y cardiau post a restrwyd uchod, fe welir fod bylchau amlwg yn fy nghasgliad. Os gŵyr darllenwyr pybyr am gardiau post nas rhestrwyd, yna cofiwch daro gair i'r *Casglwr*.

Eisteddfod y glöwyr; Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru; Eisteddfod Ryngwladol Llangollen; Eisteddfod pentrefi a threfi; Eisteddfod y Ffermwyr Ieuainc; Eisteddfod Merched y Wawr a Sefydliad y Merched yng Nghymru.

Fesul dipyn y tyf pob casgliad. Mae hynny'n wir am gardiau post. Gosod nod a wnes i. Codi'r caead megis.

AC WELE nodyn ar gyfresi o gardiau post ac o lyfrau sy'n ymwneud â hwy ac ar gael.

Cyfres o gardiau post lliwgar yn darlunio rhannau o Faldwyn. Ar gael yng Nghyngor Dosbarth Maldwyn, Ffordd Hafren, Y Trallwng, Sir Drefaldwyn SY21 7AS. Ffôn: 09382828. 15c yr un.

Cyfres o gardiau post lliwgar. Ar werth yn Archifdy Sirol, 46 Heol Clwyd, Rhuthun, Clwyd LL15 1HP. Ffôn: 082423077. 15c yr un. Cyhoeddwyd gan Gyngor Sir Clwyd. Nifer o leoedd hanesyddol yng Nghlwyd; Plas Teg, o ddarlun dyfrlliw J. Ingleby o'r 18fed ganrif, ac eraill.

LLYFRAU:

Cowell, John: *Bangor: A portrait in old picture postcards.* Cyhoeddiadau S.B., 1990. £5.95. Rhagair, gwybodaeth am ddatblygiad cardiau post yng nghylch Bangor yn Arfon.

Owen, R. M.: *Denbigh: A portrait in old picture postcards.* Cyhoeddiadau S.B., 1990. £5.95.

Os ydych yn gwybod am fwy o ddeunydd a gyhoeddwyd yn trin a thrafod cardiau post ddoe a heddiw, beth am daro gair ataf yn 1 Tan y Ffordd, Bethel, Arfon, Gwynedd LL55 1YB.